

Hysbysiad am Benderfyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Bwrdd Gweithredol Dydd Mawrth, 12 Mawrth 2019

Rhif Eitem ar y Rhaglen	Pwnc	Penderfyniad
5	Cynnig i ymgynghori ar y cynnydd mewn lleoedd disgyblion yn Ysgol Gynradd Lôn Barcas - Adborth Ymgynghoriad	<p>PENDERFYNWYD -</p> <p>(i) Y byddai'r Aelodau'n nodi'r adborth ar yr ymgynghoriad a geir yn adroddiad HEd/05/19 a'r ddogfen ôl-ymgyngori (fel y nodir yn Atodiad 2).</p> <p>(ii) Awdurdodi Swyddogion i symud ymlaen i Hysbysiadau Statudol (fel y nodir yn Atodiad 1) mewn perthynas â'r cynnig i gynyddu lleoedd disgyblion yn Ysgol Gynradd Lôn Barcas.</p> <p>Adeiladu estyniad i'r adeilad presennol i greu lle ar gyfer 105 disgybl arall (15 disgybl ym mhob grŵp blwyddyn). Byddai'r flwyddyn gyntaf o gynnydd ym mis Medi 2020 ar gyfer y dosbarthiadau Meithrin (15 lle) a Derbyn (15 lle) yn unig.</p> <p>Bydd y nifer derbyn yn cynyddu 15 lle bob blwyddyn (o 30 i 45) yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn o 2020 ymlaen, a bydd y dosbarthiadau hyn yn symud drwy'r ysgol nes eu bod yn cyrraedd uchafswm nifer y lleoedd, sef 315 (yn ogystal â 45 o lleoedd yn y meithrin).</p> <p>(iii) Ymdrin â'r materion hyn fel materion brys yn unol â Rheol Sefydlog 43 (1) Rheolau Sefydlog y Cyngor.</p> <p>Rhesymau dros y penderfyniadau</p> <p>(i) Mae galw parhaus am lleoedd yng Nghanol Tref Wrecsam. Er ein bod yn bodloni'r galw ar hyn o bryd o fewn y Sir, rhagwelir twf pellach.</p>

Hysbysiad am Benderfyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam – Bwrdd Gweithredol, Dydd Mawrth, 12 Mawrth 2019

Rhif Eitem ar y Rhaglen	Pwnc	Penderfyniad
		<p>(ii) Ar gyfer y cylch derbyn presennol yn 2018-2019 methodd yr Adran Addysg, sef yr Awdurdod Derbyn, â bodloni'r galw lleol am leoedd yng Nghanol y Dref, a bu'n rhaid gwrthod disgyblion oedd wedi dewis Ysgol Gynradd Lôn Barcas.</p> <p>(iii) Er mwyn cyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru i leihau meintiau dosbarthiadau cynradd ymhellach, mae'n rhaid gwneud darpariaeth ar gyfer mwy o leoedd, yn enwedig felly yng Nghanol y Dref.</p> <p>(iii) Mae cyfle wedi codi i ni fodloni'r galw ychwanegol drwy ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru nad yw'n rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Llywodraeth Cymru fyddai'n ariannu'r prosiect hwn 100%.</p> <p>(v) Hoffem i'r cyfnod gwrthwynebu statudol o 28 diwrnod gael ei gynnig yn llawn cyn cychwyn cyfnod gwyliau'r Pasg. Er mwyn gwneud hyn, byddai gofyn i ni gyhoeddi Hysbysiadau Statudol ar 15 Mawrth 2019, neu cyn hynny, a fyddai'n golygu bod y cyfnod wedi dod i ben erbyn 12 Ebrill 2019.</p>
6	Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Wreccsam	<p>PENDERFYNWYD – Argymell i'r Cyngor gymeradwyo Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Bwrdeistref Sirol Wreccsam 2019.</p> <p>Rheswm dros y penderfyniad</p> <p>Mae gofyniad statudol dan adran 60(3) a (4) y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, i Awdurdodau Lleol gynnal asesiad newydd, adolygu eu Cynllun Gwella</p>

Hysbysiad am Benderfyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Bwrdd Gweithredol, Dydd Mawrth, 12 Mawrth 2019

Rhif Eitem ar y Rhaglen	Pwnc	Penderfyniad
		<p>Hawliau Tramwy a gwneud penderfyniad ar ddiwygiadau, ddim mwy na 10 mlynedd ar ôl cyhoeddi'r cynllun blaenorol. Mae'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth mai penderfyniad y Cyngor yw cymeradwyo'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007).</p>
7	Diweddaru Polisi a Ffioedd Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth	<p>PENDERFYNWYD -</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Mabwysiadu'r dull codi tâl diwygiedig ar gyfer ffioedd trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth (Atodiad 1 adroddiad HEP/18/19) a chymeradwyo'r Polisi Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth (3ydd cyhoeddiad) a ddiweddarwyd. (ii) Gweithredu'r ffi arfaethedig o £100 am adennill y costau a ysgwyddir gan archwiliadau mewnfudo o 1 Ebrill 2019 ymlaen. (iii) Gweithredu ffi arfaethedig o £35 yr awr (neu ran o awr) ar gyfer perchnogion/landlordiaid/Asiantaethau Gosod Tai am ddarparu cyngor ar y safle ar gyfer darpar Dŷ Amlfeddiannaeth o 1 Ebrill 2019 ymlaen. (iv) Diddymu'r ffi gorfodi o £415.50 am wasanaethu hysbysiadau ymwybyddiaeth o beryglon o 1 Ebrill 2019 ymlaen. (v) Ymdrin â'r mater hwn fel mater brys yn unol â Rheol Sefydlog 43(1) Rheolau Sefydlog y Cyngor. <p>Rhesymau dros y penderfyniadau</p>

Hysbysiad am Benderfyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Bwrdd Gweithredol, Dydd Mawrth, 12 Mawrth 2019

Rhif Eitem ar y Rhaglen	Pwnc	Penderfyniad
		<p>(i) Er mwyn sicrhau cydymffurfiad â Chyfarwyddeb Gwasanaethau'r Undeb Ewropeaidd (ESD 2006/123/EC) drwy weithredu'r trefniadau gweinyddol gofynnol cyn gynted ag y bo modd ar ôl penderfyniad y Bwrdd Gweithredol.</p> <p>(ii) Er mwyn adennill y costau a ysgwyddwyd gan archwiliadau mewnfudo, sy'n wasanaeth anstatudol, yn llawn.</p> <p>(iii) Er mwyn adennill yn llawn y costau a ysgwyddir pan fo Swyddog yn ymweld â darpar Dŷ Amlfeddiannaeth ar gais landlord neu Asiantaeth Gosod Tai i roi cyngor cyn gwneud cais am drwydded.</p> <p>(iv) Er mwyn galluogi Landlordiaid ac Asiantaethau Gosod Tai i ddefnyddio'r ffi o £415.50 i dalu am waith i ddileu'r peryglon a nodir yn yr hysbysiad ymwybyddiaeth o beryglon.</p>
8	Cynllun Asesu a Rheoli Nodweddion Ardal Gadwraeth Canol Tref Wrecsam	<p>PENDERFYNWYD – Cymeradwyo fersiwn ddrafft Cynllun Asesu a Rheoli Nodweddion Ardal Gadwraeth Canol Tref Wrecsam.</p> <p>Rheswm dros y penderfyniad</p> <p>Er mwyn darparu canllawiau i'r rhai hynny sy'n ceisio cynnal gwaith datblygu a newid o fewn Ardal Gadwraeth Canol Tref Wrecsam, gan sicrhau y caiff cymeriad ac ymddangosiad arbennig yr Ardal Gadwraeth eu cadw a'u gwella.</p>
11	Ebrill 2019 dyfarniad lwfans cost	PENDERFYNWYD -

Hysbysiad am Benderfyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Bwrdd Gweithredol, Dydd Mawrth, 12 Mawrth 2019

Rhif Eitem ar y Rhaglen	Pwnc	Penderfyniad
	byw NJC	<p>(i) Cymeradwyo'r diwygiadau i strwythur tâl a graddio NJC sydd wedi deillio o weithredu cytundeb tâl NJC 2018 – 2020, fel y nodir yn Atodiad 3 adroddiad HCCS /11/19.</p> <p>(ii) Awdurdodi Rheolwr Gwasanaeth AD a DS i weithredu'r ymarfer cymathu a gwneud y diwygiadau angenrheidiol i Bolisi Cyflog y Cyngor er mwyn adlewyrchu'r newidiadau y cytunwyd arnynt.</p> <p>Rheswm dros y penderfyniadau</p> <p>Er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor ymagwedd deg a chyson tuag at gyflogau a'i fod yn cymhwyso cytundeb tâl NJC ar gyfer 2018 – 2020 ar 1 Ebrill 2019.</p>